



**Dyddiad cyhoeddi:** 21 Ebrill 2020

### **Cyhoeddiadau Gorsafoedd a Threnau**

Diolch am eich cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth ar 6 Ebrill 2020. Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'n polisi mynediad at wybodaeth. Gallaf gadarnhau bod y wybodaeth rydych am ei chael gennym ni.

Gofynnoch am:

- Enwau'r gorsafoedd wedi'u recordio ymlaen llaw, cyhoeddiadau rhestr wedi'i thorri; "mae'r trên hwn ar gyfer", "yr orsaf nesaf yw" a chyhoeddiadau cyffredinol ynghylch diogelwch ac ysmegu (ar ffurfdroeon i fyny ac i lawr (o ran enwau gorsafoedd) o'r system PA ar y trên fel y defnyddir ar fflyd 150, 158 a 175 gyda llais Ruth Mitchell
- Y feddalwedd gysylltiedig y gall fod ei hangen i gael mynediad at neu chwarae'r ffeiliau uchod
- Pob ffeil cyhoeddiadau gorsaf wedi'u recordio ymlaen llaw; "y trên nesaf i adael o blatfform 2 fydd y gwasanaeth 18:56 i Gasnewydd" yn cynnwys ffurfiannau trenau, cyfleusterau ar y trên a'r rhesymau am oedi ac ati hefyd gyda llais Ruth Mitchell (Saesneg) ac Eryl Jones (Cymraeg), ynghyd â'r cyhoeddiadau gorsaf cyffredinol gyda lleisiau'r naill a'r llall.
- Y feddalwedd gysylltiedig y gall fod ei hangen i gael mynediad at neu chwarae'r ffeiliau uchod

Fodd bynnag, yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, does dim rhaid i TrC gyflenwi'r wybodaeth y gofynnir amdani gan ei bod yn destun esemptiad i'r hawl i gael mynediad at wybodaeth o dan adran 38 - Iechyd a Diogelwch.

Mae defnyddio'r esemptiad hwn yn destun asesiad o'r budd cyhoeddus mewn perthynas â datgelu'r wybodaeth dan sylw. Mae TrC yn cydnabod yr angen i fod yn agored a thryloyw o fewn awdurdodau cyhoeddus a'r graddau o fudd cyhoeddus mewn perthynas â chyhoeddiadau TrC. Fodd bynnag, yn yr achos hwn y risg a fyddai'n cael ei achosi pe bai'r cyhoeddiadau hyn yn cael eu defnyddio'n anghywir mewn gorsafoedd yw'r ystyriaeth bwysicaf. Er enghraifft, pe bai rheolwr gorsaf yn gwneud cyhoeddiad ffeithiol am drên yn cyrraedd platfform, ac ychydig cyn i'r trên gyrraedd bod cyhoeddiad yn cael ei wneud yn dweud bod y trên wedi newid i blatfform arall gan rywun yn defnyddio'r recordiadau, gallai achosi i bobl rithro i blatfform anghywir arall ac achosi risg iechyd a diogelwch.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â Trafnidiaeth Cymru.

Yn gywir

Trafnidiaeth Cymru